

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Dydd Llun, 22ain Gorffennaf, 2024, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cynghorydd Sirol: Martyn Groucutt, Jayne McKenna, Phil Murphy, Laura Wright, M. Cross, C. Andrews, R. Clark, John Crook

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Nikki Wellington	Rheolwr Cyllid
Louise Connolly	Accounting Technician Trainee
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol: David Jones, Maria Stevens
H. Morgan, M. Rees, P. James

1. Ethol Cadeirydd.

Gwnaethom ethol y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt yn Gadeirydd.

2. Penodi Is-gadeirydd.

Gwnaethom benodi'r Cynghorydd Sir Phil Murphy yn Is-Gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

4. Cadarnhau'r Cofnodion.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

5. Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2024.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgolion Fferm Sir Fynwy am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr y gellir trosglwyddo'r rhain i archwilwyr allanol i'w harchwilio'n annibynnol.

Gwnaethom weithredu yn unol â hynny.

6. Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd.

Gwnaethom wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth esempt yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Dydd Llun, 22ain Gorffennaf, 2024, 2.00 pm

7. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/25.

Gwnaethom ystyried pedwar cais a dderbyniwyd yn erbyn y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Cytunwyd y bydd matrices o gostau'n cael ei lunio i'w drafod yn y cyfarfod nesaf a chysylltir â'r holl golegau i roi cyhoeddusrwydd i'r ymddiriedolaeth i bob myfyriwr newydd a phresennol ym mis Medi 2024.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylid rhoi dyfarniadau i'r pedwar ymgeisydd, yn amodol ar dderbynebau priodol a thystiolaeth o bresenoldeb.

Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i fyfyrwyr yn y cyfarfod oedd £4152.

8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Dydd Llun, 21ain Hydref, 2024 11.00yb.